# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6

Cyhoeddwyd 2020

Cyngor Sir Penfro



# A. Aelod o’r Cabinet dros yr Amgylchedd a’r Gymraeg a Hyrwyddwr Bioamrywiaeth

Fel Aelod o’r Cabinet dros yr Amgylchedd a’r Gymraeg, credaf y bydd rhoi’r Cynllun hwn ar waith, gan gyd-fynd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn cychwyn y broses o sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Penfro, ac y bydd yr elfen hon yn cael ei hymwreiddio yng nghynlluniau, polisïau, prosiectau a gweithgareddau beunyddiol y Cyngor. Braf yw gweld y cysylltiadau cryf rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), a’r pwysigrwydd a roddir ar yr amgylchedd naturiol mewn deddfwriaethau erbyn hyn.

Yn Sir Benfro, rydym yn ymwybodol o’n hardaloedd cyfoethog ac amrywiol sy’n doreithiog o natur a’r manteision lu a ddaw i’n rhan yn eu sgil, a chymerwn ein cyfrifoldebau i warchod yr adnodd digymar hwn o ddifrif.

Y Cynghorydd Cris Tomos

# B. Prif Weithredwr

Mae’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a bennir yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnig cyfeiriad clir ar gyfer diogelu bioamrywiaeth a sicrhau cydnerthedd yr ecosystemau sy’n ein cynnal, a dyma rywbeth i’w groesawu. Er bod hyn yn cyflwyno heriau, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i’r Cyngor Sir roi blaenoriaeth ac adnoddau i gyfoethogi’r ecosystemau amrywiol, ac unigryw o dro i dro, sydd i’w cael yn Sir Benfro. Rwyf o’r farn fod y Cynllun hwn yn pennu dull realistig ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni yn y tymor cychwynnol, a’i fod yn gosod fframwaith a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu. Rydym wedi nodi sut y byddwn yn cydweithio gyda chydweithwyr trwy’r awdurdod er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth, a sicrhau y byddwn yn ymwreiddio yn ein prosesau datblygu prosiectau a’n prosesau datblygu busnes gamau a fydd yn ceisio cyfleoedd i gynnal a chyfoethogi ein hamgylchedd naturiol, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Ian Westley

# Cynnwys


| **Teitl adran** | **Rhif tudalen** |
|---|---|
| A. Rhagair gan yr Aelod o'r Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg. | 2 |
| B. Rhagair gan y Prif Weithredwr. | 2 |
| 1. Trosolwg. | 4 |
| 2. Adnoddau Naturiol Sir Benfro. | 6 |
| 3. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. | 10 |
| 4. Y Cyd-destun Strategol. | 10 |
| 5. Cynlluniau Gweithredu. | 13 |
| 6. Atodiadau. | 17 |
| 6.1 Y Cyd-destun Polisi a'r Cyd-destun Deddfwriaethol. | 17 |
| 6.2 Rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) y gwyddys eu bod i'w cael yn Sir Benfro. | 19 |

# 1. Trosolwg

Lluniwyd Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Cyngor Sir Penfro mewn ymateb i'r ddyletswydd uwch o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny.

Wrth gydymffurfio â dyletswydd Adran 6, rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried y canlynol:

Rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn i Gymru

Yr adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Unrhyw ddatganiad ardal sy'n ymdrin â'r ardal gyfan neu ran o'r ardal y mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau ynddi, ar ôl i'r datganiadau hyn gael eu llunio.

Bydd cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 yn helpu'r Awdurdodau Cyhoeddus hynny y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt i wneud yn fawr o'u cyfraniadau at y nodau llesiant.

Gellir mynd i'r afael â'r holl brif fygythiadau sy'n wynebu bioamrywiaeth – yn cynnwys gorddefnydd, colli cynefinoedd a rhywogaethau goresgynnol – trwy fyw'n fwy cynaliadwy o fewn terfynau amgylcheddol. Fel Awdurdodau Lleol eraill, mae Cyngor Sir Penfro'n wynebu pwysau ariannol parhaus. Mae'n hanfodol mynd ati i ystyried mentrau amgylcheddol mewn modd cyfannol, a'u defnyddio fel cyfle i gyfoethogi llesiant trwy'r Sir a chyfrannu pan fo modd at gadernid ariannol.

## Beth yw bioamrywiaeth?

Bioamrywiaeth (amrywiaeth fiolegol) yw'r amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear. Mae'n cynnwys planhigion ac anifeiliaid byw o bob math (yn cynnwys bodau dynol), eu hamrywiaeth enetig, a'r amrywiad o fewn a rhwng yr ecosystemau y maent yn ddibynnol arnynt. Mae bioamrywiaeth ym mhobman: gerddi, caeau, gwrychoedd, mynyddoedd, afonydd a moroedd. Mae bioamrywiaeth iach yn cyfrannu gwasanaethau naturiol gwerthfawr, yn cynnwys: gwasanaethau ecosystemau fel sefydlogrwydd hinsawdd a rheoli perygl llifogydd yn naturiol; adnoddau biolegol yn cynnwys bwyd a chynhyrchion naturiol; a manteision cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd, ansawdd bywyd a llesiant.

Delwedd: Bae Abergwaun



## 2. Adnoddau Naturiol Sir Benfro

Mae amgylchedd naturiol Sir Benfro yn cynnal amrywiaeth enfawr o fywyd gwyllt. Mae bywyd gwyllt yn rhoi pleser, ysbrydoliaeth a chymunedau hardd inni. Mae amgylchedd naturiol Sir Benfro yn bwysig i bob un ohonom – mewn gwahanol ffyrdd. Amaethyddiaeth a thwristiaeth yw'r prif gyflogwyr yn ardaloedd gwledig Sir Benfro, ac mae Aberdaugleddau yn ganolbwynt i ddiwydiannau ynni.

Trwy gyfrwng nifer o wasanaethau pwysig mae bioamrywiaeth yn rhoi inni lawer o'r pethau sy'n cynnal ein bywydau, er nad yw hyn bob amser yn amlwg. Dyma'r gwasanaethau dan sylw:

- Darparu – darparu bwyd (gwneith, pysgod ac ati), tanwydd (pren, glo), dŵr glân, meddyginiaethau a thecstilau.
- Rheoleiddio – gwaredu llygryddion, rheoli llifogydd, sugno carbon deuocsid (nwyon tŷ gwydr) a rhwystro erydiad.
- Diwylliannol – tirweddau hardd, ymdeimlad o le, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwiliadau gan blant ysgol a myfyrwyr, prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion a gweithwyr proffesiynol.
- Cefnogi – cynnal priddoedd a thwf planhigion.

Mae tirwedd a natur ddaearegol ac arfordirol y Sir yn esgor ar amgylcheddau amrywiol sydd, yn eu tro, yn cynnig cynefinoedd addas i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid – gan amrywio o'r pethau cyffredin i'r pethau sydd o dan fygythiad yn fyd-eang.

Yn Sir Benfro ceir nifer o safleoedd a ddynodwyd ar sail eu pwysigrwydd o safbwynt gwarchod natur, yn cynnwys dynodiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Delwedd: Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol Afonydd Cleddau (Ardal Cadwraeth Arbennig) Hwlffordd



Yn ôl ffigurau a gasglwyd fel rhan o adroddiad Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2016, o blith y 5,000 o rywogaethau y gwyddys eu bod i'w cael yng Nghymru, mae 345 (7%) mewn perygl o ddiflannu o Brydain Fawr. Mae rhywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddirywio'n barhaus. Lluniwyd y canfyddiadau gan hanner cant o gyrff cadwraethol er mwyn tynnu sylw at gyflwr natur ledled y wlad. Nodir bod y golled net o ran bioamrywiaeth fel pe bai'n parhau o ganlyniad i bwysau parhaus ac, mewn ambell achos, bwysau cynyddol.

Delwedd: Adar môr ar Ynys Sgomer – safle a chanddo sawl dynodiad



Yn ôl Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro (2016), a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ar y pryd (Partneriaeth Natur Sir Benfro erbyn hyn), aseswyd bod 30% o'r nodweddion a ddewiswyd yn dirywio, a nodwyd na ellid asesu 13% yn ychwaneg oherwydd prinder data.

[I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan Partneriaeth Natur Sir Benfro]

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro 2018 yn canolbwyntio ar gamau lleol sy'n bodloni'r Amcanion ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau o fewn y cynllun:

## Crynodeb o amcanion a themâu gweithredu:

**Amcan NRAP Cymru 1**

Cefnogi ac ymhél â chyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

1.1 Rhaglen addysg a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sy’n hygyrch i’r cyhoedd ac sy’n cynnwys digwyddiadau, cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i’r wasg.

1.2 Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o wneud penderfyniadau.

1.3 Gweithio gyda’r sector preifat i wneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o wneud penderfyniadau.

1.4 Gweithio gyda grwpiau buddiannau arbenigol i wella dealltwriaeth o statws cadwraethol a rôl ecolegol nodweddion penodol.

1.5 Gweithio gyda chymunedau a thirfeddianwyr i dynnu sylw at nodweddion cadwraeth yn eu hardal ac annog eu hystyried wrth reoli safleoedd.

**Amcan NRAP Cymru 2**

Diogelu rhywogaethau a
chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth.

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

2.1 Darparu gwybodaeth glir a hygyrch i’r cyhoedd ynghylch rhywogaethau a chynefinoedd pwysig yn Sir Benfro, gan nodi statws, tueddiadau, bygythiadau a chyfleoedd.

2.2 Cynorthwyo partneriaid gyda nodi, datblygu a chyflawni camau gweithredu ar gyfer diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig yn Sir Benfro.

**Amcan NRAP Cymru 3**

Gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

3.1 Cynorthwyo partneriaid gyda nodi, datblygu a chyflawni camau gweithredu ar gyfer gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd yn Sir Benfro.

**Amcan NRAP Cymru 4**
Mynd i'r afael â'r pwyseddau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

4.1 Gweithio gyda pherchenogion a rheolwyr safleoedd i leihau achosion o ddarnio cynefinoedd, gan weithredu camau unigol yng nghyd-destun graddfa ehangach y dirwedd, trwy fentrau megis B-Lines, y Goedwig Hir a phrosiect Ailgysylltu Dreigiau Cymru ac eraill wrth iddynt godi.

4.2 Gwella gwytnwch rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau o ran effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy wella cyflwr, maint a chysylltedd ecolegol ein hardaloedd sy'n gyforiog â natur.

4.3 Annog defnyddio datrysiadau naturiol megis gwelyau cyrs, lleiniau clustogi a phlannu gwrychoedd cyfuchlinol i leihau llygredd gwasgaredig ac erydiad pridd.

4.4 Annog datblygu a mabwysiadu codau ymddygiad gwirfoddol i reoli defnyddio'n hamgylchedd o fewn terfynau cynaliadwy.

4.5 Annog prosiectau cydweithredol i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol ar raddfeydd priodol megis dalgylchoedd afonydd.

**Amcan NRAP Cymru 5**
Gwella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

5.1 Gweithio gyda Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru i ddarparu data o ansawdd uchel am ddosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau a datblygu offer i ddefnyddio'r data hyn er mwyn nodi a thargedu cyfleoedd cadwraeth.

5.2 Cefnogi arolygu gan wirfoddolwyr drwy roi mynediad i gyngor, hyfforddiant ac offer a chyfeirio at fentrau gwyddoniaeth dinasyddion.

**Amcan NRAP Cymru 6**
Gosod fframwaith ar gyfer llywodraethu a chefnogi cyflenwi.

**Themâu Gweithredu NRAP Sir Benfro**

6.1 Darparu partneriaeth leol gref i weithredu fel rhyngwyneb rhwng partneriaid cyflwyno lleol a Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru.

# 3. Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd uwch mewn perthynas â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar gyrff cyhoeddus sy’n arfer swyddogaethau’n ymwneud â Chymru. Ystyrir bod bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau oddi mewn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae dyletswydd adrodd newydd yn galluogi cyrff cyhoeddus i adrodd am gamau a gymerir i gyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu’r camau a gymerir i ymgorffori mesurau bioamrywiaeth mewn prosiectau, dulliau rheoli, polisïau, strategaethau neu fentrau.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae hi’n ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer eu swyddogaethau’n briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny.

Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion.

# 4. Y Cyd-destun Strategol

## Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio’i Chynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) ei hun. Yn y cynllun hwn, pennir ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran bioamrywiaeth yng Nghymru, y materion y mae angen inni ymdrin â nhw, a’r amcanion ar gyfer gweithredu er mwyn dangos sut y gall Cymru fynd i’r afael â’r hyn sydd wrth wraidd colledion bioamrywiaeth, yn benodol trwy wneud y canlynol:

• Rhoi natur wrth galon a chraidd y broses benderfynu

• Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth

• Cymryd camau penodol er budd cynefinoedd a rhywogaethau

Mae’n nodi sut y bydd Cymru’n cyflawni ymrwymiadau’r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac ymrwymiadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE i atal ein bioamrywiaeth rhag dirywio erbyn 2020, a sut y bydd modd mynd ati wedyn i wyrdroi’r dirywiad hwnnw.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith datblygu cynaliadwy cryfach a mwy cydlynol ar gyfer Cymru trwy gyfrwng cyfres o saith nod llesiant, egwyddor datblygu cynaliadwy, a dyletswydd gref ar bob corff cyhoeddus i fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy, gan fyfyrio ar yr angen i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**Cynlluniau a Pholisïau gan y Cyngor sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:**

Cynllun Llesiant Sir Benfro – a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Penfro

## Sut y datblygwyd y cynllun gweithredu

Datblygwyd y cynllun gweithredu cyntaf gan, ac ar gyfer, yr Awdurdod ar ôl mynd ati ym mis Mehefin 2017 i gynnal gweithdy gyda'r Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaethau a chydweithwyr.

Gofynnwyd i'r rhai a fynychodd y gweithdy adolygu'r gweithgareddau yr oeddynt yn gyfrifol amdanynt, a nodi pa rai o'r gweithgareddau hyn a allai effeithio ar fioamrywiaeth.

Cafodd y drafodaeth ei harwain gan y 6 amcan a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP) – sef amcanion y cydnabyddir eu bod wedi cyfrannu at wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru.

1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.
2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.
3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.
4. Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.
5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.
6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

Pennodd pob gwasanaeth gyfleoedd dilynol i fynd i'r afael â'r ddyletswydd newydd o ran Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a osodir ar Gyngor Sir Penfro yn sgil Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2916 – sef cyfleoedd a oedd yn deillio o newid arferion gweithio. Mae'r cynllun hwn yn ddogfen fyw ac mae'n seiliedig ar y fersiwn ddrafft o gwestiynau cyffredin Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar hyn o bryd. Wrth inni symud ymlaen, bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu a'i adolygu yn unol â'r canllawiau a'r gofynion adrodd.

Delwedd: Plannu planhigion er budd pryfed peillio yn amgylchedd trefol Hwlffordd



**Camau a gymerir yn barod**

a. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n hyrwyddo'r polisïau amgylcheddol a bennir yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol, gan ystyried bioamrywiaeth yn yr holl benderfyniadau a wna.

b. Partneriaeth Natur Sir Benfro – mae'n cynnig cyswllt rheolaidd rhwng sefydliadau amgylcheddol sy'n gweithio yn Sir Benfro er mwyn cyflawni nodau cyffredin, a chaiff cynulliad blynyddol ei gynnal.

c. Caiff lleiniau glas ar hyd ymylon ffyrdd y sir eu rheoli ar sail cyngor a rydd Ecolegydd/Swyddog Bioamrywiaeth i Dimau Cynnal a Chadw Ardaloedd.

d. Rydym yn cysylltu gyda Thimau Cynnal a Chadw Ardaloedd ynghylch creu ardaloedd heb eu torri a phlannu planhigion er budd pryfed peillio mewn parciau cyhoeddus, mynwentydd a mannau eraill.

e. Rheoli a gwarchod coetiroedd Cyngor Sir Penfro.

f. Prosiectau Seilwaith Gwyrdd e.e. Cleddau Reaches.

g. Rydym yn cysylltu gyda Thimau Cynnal a Chadw Ardaloedd ynghylch rhywogaethau a warchodir – e.e. gwaith toi/clefyd coed ynn, er mwyn cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth.

h. Rydym yn rhoi cyngor yn ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau ar gyfer datblygiadau ar dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro.

i. Caiff cynefinoedd ac ardaloedd bywyd gwyllt eu creu ar diroedd ysgolion.

j. Caiff cynefinoedd bywyd gwyllt eu dynodi a'u rheoli fel ffordd o liniaru effeithiau prosiectau datblygu e.e. cytundebau o dan A106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

k. Caiff cynlluniau amaeth-amgylcheddol a chynlluniau rheoli coetiroedd eu cefnogi ar ystad wledig a Ffermydd Sirol Cyngor Sir Penfro.

l. Parc Gwledig Scolton a Choedwig Llwynhelyg – darparu addysg, cadwraeth a man gwyrdd naturiol i'r cyhoedd.

m. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Traethlin.

n. Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r ganolfan cofnodion lleol – Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

o. Rydym yn cymryd rhan yng Ngrŵp Awdurdodau Rheoleiddio Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, a hefyd rydym yn cynnig cymorth iddo. Nod y Grŵp hwn yw diogelu a chyfoethogi priodweddau arbennig yr ACA forol. Hefyd, rydym yn cyfrannu at Grŵp Awdurdodau Rheoleiddio Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion a Grŵp Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd.

p. Rydym yn cymryd rhan yn y Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gaiff ei gadeirio gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, a hefyd rydym yn cynnig cymorth iddo.

q. Rydym yn cynorthwyo gwaith Grŵp Goruchwylio Amgylcheddol Dyfrffyrdd Aberdaugleddau gan fynd ati i ddadansoddi arolygon a samplau data hirdymor yn Nyfrffyrdd Aberdaugleddau.

r. Cyhoeddwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro (2018-28), a bydd yn ystyried cyfleodd i gyflawni Dyletswydd Adran 6 wrth wella neu wyro llwybrau.

## 5. Camau i'w cymryd

1. Cynnal gweithdai gydag Is-adrannau ac Adrannau perthnasol yng Nghyngor Sir Penfro er mwyn esgor ar broses adrodd yn ymwneud â Dyletswydd Adran 6.
2. Bydd cyfarwyddiaethau'n ymgorffori Dyletswydd Adran 6 yn y Blaengynllun.
3. Annog ymgynghori cynnar gyda'r Tîm Cadwraeth ynghylch safleoedd / rhywogaethau a warchodir er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth ac er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn ein dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016 mewn modd cyson.

4. Adolygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro – Partneriaeth Natur Sir Benfro mewn ymateb i ganllawiau a deddfwriaethau a all esblygu.

5. Bydd yr Is-adran Gynllunio'n datblygu dull cyson er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i chyfoethogi, a bod cydnerthedd ecosystemau yn cael ei hyrwyddo fel rhan o'r system gynllunio. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo trwy gyfrwng hyfforddiant a gweithdai ar gyfer staff, a hefyd ar gyfer partneriaid allanol – asiantau, datblygwyr ac ecolegwyr, e.e. seminar goleuadau ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

6. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol dilynol yn asesu cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth ac ymgorffori tystiolaeth sydd wedi deillio o Gynllun Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro yn y CDLl2 diwygiedig.

7. Bydd Cyngor Sir Penfro'n parhau i geisio cyfoethogi bioamrywiaeth y môr yn Sir Benfro trwy weithio mewn partneriaeth â'r canlynol:

   Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol x 3 – Sir Benfro Forol, Bae Caerfyrddin ac Aberoedd, a Bae Ceredigion; Grŵp Goruchwylio Amgylcheddol Dyfrffyrdd Aberdaugleddau; Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru – Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

8. Torri lleiniau ymylon ffyrdd trwy'r sir – Bydd y polisi rheoli'n parhau i gael ei adolygu a'i weithredu, bydd Ecolegydd yn cyflwyno sgwrs i gontractwyr, bydd darpariaethau'n cael eu gwneud ar gyfer torri lleiniau ymylon ffyrdd yn hwyr, a bydd y gyfres bresennol o Warchodfeydd Natur Lleiniau Ymylon Ffyrdd yn cael ei hadolygu.

9. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol o dan y Ddeddf newydd hon. Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd fel yr argymhellir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Priffyrdd a Gaiff eu Rheoli'n Dda.

10. Caiff Mapiau Rhwydwaith Integredig eu llunio ar gyfer aneddiadau mwy yn Sir Benfro, fel un o ofynion Deddf Teithio Llesol Cymru 2013.

    Ymgynghorir â'r Tîm Cadwraeth.

11. Bydd Prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn ymgynghori â'r Tîm Cadwraeth pan gânt eu datblygu gan Dîm y Prosiect. Bydd yr effaith debygol ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'n cael ei hasesu. Yna, bydd modd ymdrin â'r materion hyn o'r cychwyn cyntaf wrth lunio'r cynllun.

12. Bydd y Tîm Cadwraeth yn adolygu'r effaith bosibl a gaiff ffordd feicio SUSTRANS Arberth – Hwlffordd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, a bydd yn cyflwyno sylwadau ynghylch yr adroddiad cwmpasu cychwynnol a'r adborth a fydd yn deillio o arolygon a gynhaliwyd ar droed (cwblhawyd yr arolygon hyn eisoes gan Ymgynghorwyr). Eir ati i archwilio cyfleoedd i'r cynllun hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a chyfoethogi bioamrywiaeth.

13. Bydd materion ecolegol ac arolygon perthnasol yn cael eu hystyried cyn gynted ag y bo modd mewn cynlluniau prosiectau a chynlluniau strategol trwy'r holl Awdurdod – er mwyn dangos bod Cyngor Sir Penfro'n ymwreiddio bioamrywiaeth yn ei ffyrdd o feddwl. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i bennu opsiwn a ffefrir ar gyfer prosiectau er mwyn cyfarwyddo cynigion lliniaru a chynigion gwella.

14. Bydd cyfarwyddiaethau'n cyfeirio'n benodol at Ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a 'chydnerthedd ecosystemau' mewn Cynlluniau Gwasanaethau.

15. Adolygu Ystad Cyngor Sir Penfro. Safleoedd a gedwir – bydd asesiadau bioamrywiaeth yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r safleoedd hyn; a bydd y fioamrywiaeth a gaiff ei chynnal ganddynt, ynghyd â'r cyfraniad a wnânt at gydnerthedd ecosystemau, yn cael ei nodi. Eir ati i adolygu'r modd y caiff y safleoedd hyn eu rheoli, fel y bo'n briodol e.e. cadw tiroedd llawn bioamrywiaeth/gwael yn amaethyddol o dan reolaeth Cyngor Sir Penfro.

16. Amddiffyn rhag llifogydd – Datblygu dulliau gweithio a fydd yn ymgorffori materion bioamrywiaeth. Datblygu gweithdrefnau a fydd yn sicrhau bod contractwyr sy'n gwneud gwaith ar safleoedd yn gwybod am ddiddordeb bioamrywiaeth y safleoedd hynny, eu bod yn gwybod beth yw cyfyngiadau'r safleoedd o ran bioamrywiaeth, a'u bod yn ymwybodol o'r datganiad dull sy'n angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â'r gwaith.

17. Adolygu anghenion hyfforddi corfforaethol yn ymwneud â Dyletswydd A6 ar gyfer aelodau, swyddogion a chontractwyr, a rhoi cymorth perthnasol.

18. Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin – byddwn yn ymgynghori gyda'r Tîm Cadwraeth ynghylch ceisiadau.

19. Systemau Draenio Cynaliadwy – byddwn yn ymgynghori gyda'r Tîm Cadwraeth ynghylch ceisiadau.

20. Cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth:

    e.e. Prosiect Nitradau Gwyddoniaeth Dinasyddion SWEPT ar gyfer Aber Cleddau 2018-19

    Prosiect Seilwaith Gwyrdd – datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol

21. Dulliau Cyngor Sir Penfro o reoli tir. Cynnal asesiadau bioamrywiaeth ar safleoedd a gaiff eu rheoli gan Gyngor Sir Penfro a chynnwys asesiad ar y cyfraniad a wna'r safleoedd hyn at gydnerthedd ecosystemau. Yng ngoleuni'r asesiadau hyn, a phan fo'n briodol, mynd ati i greu cynlluniau rheoli ar gyfer y safleoedd hyn – cynlluniau a fydd yn diogelu ac yn cyfoethogi bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

22. Gwella'r sefyllfa i bryfed peillio trwy gyfrwng dulliau rheoli a thrwy gyflawni prosiectau e.e. system torri glaswellt/hadau sy'n addas i bryfed peillio.

23. Annog addysg a newid mewn ymddygiad trwy ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a thrwy gyfrwng Cynllun Llesiant Sir Benfro.

24. Ystyried enillion o ran bioamrywiaeth trwy ddatblygu prosesau carbon niwtral net.

Delwedd: Trilliw Bach



# 6. Atodiadau

## Atodiad 1: Y Cyd-destun Polisi a'r Cyd-destun Deddfwriaethol

**Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**
Gan fod Llywodraeth y DU yn un o lofnodwyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, mae Cymru wedi ymrwymo i weledigaeth y Confensiwn ac i Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE trwy gyfrwng y Cynllun Adfer Natur. Rhagor o wybodaeth Cynllun Gweithredu Adfer Natur | LLYW.CYMRU

Bydd y nodau hyn yn cael eu gwireddu trwy gyfrwng 20 o dargedau, a elwir yn dargedau Aichi. Dangosir y rhain yn Atodiad 3 Cynllun Adfer Natur Cymru.

Efallai y bydd y penderfyniad a wnaeth trigolion y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain maes o law at adolygu sefyllfa'r DU mewn perthynas â Chyfarwyddebau a strategaeth yr UE.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cydnabod y pwysigrwydd a rydd Llywodraeth Cymru ar ein hamgylchedd a'n bioamrywiaeth. Mae'n pennu saith Nod llesiant ar gyfer y Gymru gynaliadwy y dymunwn ei chael:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r nod o gael 'Cymru Gydnerth' yn rhagweld:

'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'

Bydd yn rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at y nod hwn a phob un o nodau eraill y Ddeddf, a mabwysiadu'r egwyddorion a nodir yn y Ddeddf.

Wrth fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llwyr, mae'r Ddeddf yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â thueddiadau hirdymor a gwir achosion yr heriau strategol a wynebwn, yn cynnwys ar gyfer ein bioamrywiaeth. Mae'n ei gwneud hi'n

ofynnol i awdurdodau a chyrff cyhoeddus ystyried y nodau ym mhob polisi a strategaeth.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn bartneriaeth strategol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016) (SoNaRR) yn asesu i ba raddau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae'n cysylltu cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru â llesiant trigolion Cymru.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dull yr ecosystem mewn statud trwy gyfrwng chwech o egwyddorion. Rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus y mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn berthnasol iddynt ddefnyddio'r egwyddorion hyn wrth gynllunio a gweithredu prosiectau a rhaglenni gwaith.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn berthnasol i amgylcheddau ar y tir a'r môr. Yn ychwanegol at y rhain, mae Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 yn rhoi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar waith, sy'n anelu at gyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da ein moroedd erbyn 2020 trwy ddiogelu amgylchedd y môr, trwy ei atal rhag dirywio, trwy ei adfer pan fo hynny'n ymarferol, a thrwy ddefnyddio adnoddau'r môr yn gynaliadwy.

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer nifer o Gyfarwyddebau a deddfwriaethau allweddol sy'n berthnasol i amgylchedd y môr. Er enghraifft, Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE, Cyfarwyddeb Adar y CE, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

Gellir cael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**Ychwanegol**

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd

Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010

Cynllun Morol Cymru

## Atodiad 2: Rhywogaethau y gwyddys eu bod i'w cael yn Sir Benfro (Rhagfyr 2019)

D.S. Seilir y rhestr hon ar gofnodion rhywogaethau ar gyfer Sir Benfro, wedi'u croesgyfeirio â rhestr A7. Nid yw diffyg cofnod o angenrheidrwydd yn arwydd o absenoldeb y rhywogaethau yn Sir Benfro. Gellir gweld rhestrau llawn o rywogaethau a chynefinoedd o dan A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yma.

| Grŵp Tacson | Enw Gwyddonol | Enw Cyffredin |
|---|---|---|
| Alga (Morol) | Anotrichium barbatum | Gwymon coch barfog |
| Alga (Morol) | Cruoria cruoriaeformis | Gwymon coch |
| Alga (Morol) | Lithothamnion coralloides | Cramen goch |
| Alga (Morol) | Padina pavonica | Gwymon cynffon paun |
| Alga (Morol) | Phymatolithon calcareum | Cramen goch |
| Amffibiad | Bufo bufo | Llyffant dafadennog |
| Anelid | Alkmaria romijni | Llyngyren dentaclog |
| Aderyn | Acanthis cabaret | Llinos bengoch fach |
| Aderyn | Acrocephalus paludicola | Telor y dŵr |
| Aderyn | Alauda arvensis subsp. Arvensis | Ehedydd |
| Aderyn | Anser albifrons | Gŵydd dalcen-wen |
| Aderyn | Anser albifrons subsp. flavirostris | Gŵydd dalcen-wen yr Ynys Las |
| Aderyn | Anthus trivialis | Corhedydd y coed |
| Aderyn | Botaurus stellaris | Aderyn y bwn |
| Aderyn | Branta bernicla subsp. bernicla | Gwydd ddu Siberia |
| Aderyn | Charadrius hiaticula | Cwtiad torchog |
| Aderyn | Chroicocephalus ridibundus | Gwylan benddu |
| Aderyn | Circus cyaneus | Boda tinwyn |
| Aderyn | Coccothraustes coccothraustes | Gylfinbraff |
| Aderyn | Crex crex | Rhegen yr ŷd |
| Aderyn | Cuculus canorus | Cog |
| Aderyn | Cygnus columbianus | Alarch Bewick |
| Aderyn | Cygnus columbianus subsp. bewickii | Alarch Bewick |
| Aderyn | Dendrocopos minor | Cnocell fraith leiaf |
| Aderyn | Emberiza calandra | Bras yr ŷd |
| Aderyn | Emberiza citrinella | Bras melyn |
| Aderyn | Emberiza schoeniclus | Bras y cyrs |
| Aderyn | Falco tinnunculus | Cudyll coch |
| Aderyn | Ficedula hypoleuca | Gwybedog brith |
| Aderyn | Larus argentatus | Gwylan y penwaig |
| Aderyn | Limosa lapponica | Rhostog gynffonfraith |
| Aderyn | Linaria cannabina | Llinos |
| Aderyn | Locustella naevia | Llinos y mynydd |
| Aderyn | Lullula arborea | Troellwr bach |
| Aderyn | Melanitta nigra | Ehedydd y coed |
| Aderyn | Motacilla flava | Môr-hwyaden ddu |

| | | |
|---|---|---|
| Aderyn | Muscicapa striata | Siglen felen |
| Aderyn | Numenius arquata | Gwybedog mannog |
| Aderyn | Passer domesticus | Gylfinir |
| Aderyn | Passer montanus | Aderyn y to |
| Aderyn | Perdix perdix | Golfan y mynydd |
| Aderyn | Phylloscopus sibilatrix | Petrisen |
| Aderyn | Pluvialis apricaria | Telor y coed |
| Aderyn | Poecile montana | Cwtiad aur |
| Aderyn | Poecile palustris | Titw'r helyg |
| Aderyn | Prunella modularis | Titw'r wern |
| Aderyn | Puffinus mauretanicus | Llwyd y gwrych |
| Aderyn | Pyrrhocorax pyrrhocorax | Aderyn drycin y Balearig |
| Aderyn | Pyrrhula pyrrhula | Brân goesgoch |
| Aderyn | Sterna dougallii | Coch y berllan |
| Aderyn | Streptopelia turtur | Môr-wennol wridog |
| Aderyn | Sturnus vulgaris | Turtur |
| Aderyn | Turdus philomelos | Drudwen |
| Aderyn | Turdus philomelos subsp. clarkei | Bronfraith |
| Aderyn | Turdus torquatus | Turdus philomelos isryw. clarkei |
| Aderyn | Vanellus vanellus | Mwyalchen y mynydd |
| Aderyn | Locustella naevia | Cornchwiglen |
| Clwp-fwsogl | Lycopodiella inundata | Cnwp-fwsogl y gors |
| Cnidariad (morol) | Eunicella verrucosa | Môr-wyntyll binc |
| Cnidariad (morol) | Haliclystus auricula | Slefren goesynnog |
| Cnidariad (morol) | Lucernariopsis campanulata | Slefren goesynnog |
| Coniffer | Juniperus communis | Merywen |
| Cramennog | Austropotamobius pallipes | Cimwch dŵr croyw |
| Cramennog (morol) | Palinurus elephas | Cimwch |
| Rhedyn | Pilularia globulifera | Pelenllys |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Ammodytes marinus | Llymrïen |
| Pysgodyn esgyrnog | Anguilla anguilla | Llysywen |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Cetorhinus maximus | Heulgi |

| | | |
|---|---|---|
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Clupea harengus | Pennog |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Dipturus batis | Morgath |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Gadus morhua | Penfras |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Geleorhinus galeus | Ci glas |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Hippocampus guttulatus | Morfarch myngog |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Lamna nasus | Corgi môr |
| Pysgodyn di-ên (Agnatha) | Lampetra fluviatilis | Llysywen bendoll yr afon |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Lophius piscatorius | Cythraul y môr |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Merlangius merlangus | Gwyniad môr |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Merluccius merluccius | Cegddu |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Molva molva | Honos |
| Pysgodyn di-ên (Agnatha) | Petromyzon marinus | Llysywen bendoll y môr |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Pleuronectes platessa | Lleden goch |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Prionace glauca | Morgi glas |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Raja brachyura | Morgath felen |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Raja clavata | Morgath styds |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Raja undulata | Morgath donnog |

| | | |
|---|---|---|
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Rostroraja alba | Morgath wen |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Salmo salar | Eog |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Salmo trutta | Brithyll / Siwin |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Scomber scombrus | Macrell |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Solea solea | Lleden chwithig |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Squalus acanthias | Ci pigog |
| Pysgodyn cartilagaidd (morol) | Squatina squatina | Maelgi |
| Pysgodyn esgyrnog (morol) | Trachurus trachurus | Marchfacrell |
| Planhigion Blodeuol | Asparagus prostratus | Merllys gorweddol |
| Planhigion Blodeuol | Centaurea cyanus | Glas yr |
| Planhigion Blodeuol | Centaurium scilloides | Canrhi barhaol |
| Planhigion Blodeuol | Chamaemelum nobile | Camri |
| Planhigion Blodeuol | Cicendia filiformis | Canrhi felen eiddil |
| Planhigion Blodeuol | Coeloglossum viride | Tegeirian y broga |
| Planhigion Blodeuol | Euphrasia officinalis subsp. anglica | Effos Euphrasia hirtella |
| Planhigion Blodeuol | Euphrasia officinalis subsp. pratensis | Effros |
| Planhigion Blodeuol | Fumaria purpurea | Mwg y ddaear glasgoch |
| Planhigion Blodeuol | Galeopsis angustifolia | Y Benboeth gulddail |
| Planhigion Blodeuol | Galeopsis speciosa | Y Benboeth amryliw |
| Planhigion Blodeuol | Gentianella anglica | Crwynllys cynnar |

| | | |
|---|---|---|
| Planhigion Blodeuol | Gentianella campestris | Crwynllys y maes |
| Planhigion Blodeuol | Gentianella uliginosa | Crwynllys Cymreig |
| Planhigion Blodeuol | Gymnadenia conopsea | Tegeirian pêr |
| Planhigion Blodeuol | Liparis loeselii | Gefell-lys y fignen |
| Planhigion Blodeuol | Luronium natans | Dŵr-lyriad nofiadwy |
| Planhigion Blodeuol | Matthiola sinuata | Murwyll arfor |
| Planhigion Blodeuol | Melittis melissophyllum | Gwenynog |
| Planhigion Blodeuol | Mentha pulegium | Brymlys |
| Planhigion Blodeuol | Oenanthe fistulosa | Cegiden bibellaidd |
| Planhigion Blodeuol | Platanthera bifolia | Tegeirian llydanwyrdd bach |
| Planhigion Blodeuol | Ranunculus tripartitus | Crafanc-y-frân dridarn |
| Planhigion Blodeuol | Rumex rupestris | Tafolen y traeth |
| Planhigion Blodeuol | Salsola kali subsp. kali | Helys pigog |
| Planhigion Blodeuol | Silene gallica | Gludlys amryliw |
| Planhigion Blodeuol | Stellaria palustris | Serenllys llwydlas |
| Planhigion Blodeuol | Vicia orobus | Ffacbysen chwerw |
| Planhigion Blodeuol | Viola lactea | Fioled welw |
| Ffyngau | Amanita friabilis | Amanita brau |
| Ffyngau | Clavaria zollingeri | Ffwng cwrel dulas |
| Ffyngau | Cotylidia pannosa | Roset manflewog |
| Ffyngau | Entoloma bloxamii | Tagell binc las fawr |
| Ffyngau | Geoglossum atropurpureum | Tafod daear dulas |
| Ffyngau | Hydnellum concrescens | Ffwng draenog |
| Ffyngau | Hydnellum spongiosipes | Ffwng draenog melfedaidd |
| Ffyngau | Hygrocybe spadicea | Cap cwyrog melynddu |
| Ffyngau | Hypocreopsis rhododendri | Hypocreopsis rhododendri |
| Ffyngau | Microglossum olivaceum | Tafod daear |

| | | |
|---|---|---|
| Pryf – gwyfyn | Acronicta psi | Bidog llwyd |
| Pryf – gwyfyn | Acronicta rumicis | Bidog y tafol |
| Pryf – gwyfyn | Agrochola helvola | Castan Grech |
| Pryf – gwyfyn | Agrochola litura | Castan smotyn brown |
| Pryf – gwyfyn | Agrochola lychnidis | Castan leiniog |
| Pryf – gwyfyn | Allophyes oxyacanthae | Cilgant brych |
| Pryf – gwyfyn | Amphipoea oculea | Clustwyfyn llygeidiog |
| Pryf – gwyfyn | Amphipyra tragopoginis | Ôl-adain lyglwyd |
| Pryf – gwyfyn | Anania funebris | Gwyfyn o deulu’r Pyralidiau |
| Pryf – hymenopteran | Andrena (Poliandrena) tarsata | Gwenynen durio |
| Pryf – gwyfyn | Apamea anceps | Brithyn ocraidd |
| Pryf – gwyfyn | Apamea remissa | Brithyn llwydolau |
| Pryf – gwyfyn | Aporophyla lutulenta | Gwladwr brownddu |
| Pryf – gwyfyn | Arctia caja | Teigr yr ardd |
| Pryf – glöyn byw | Argynnis adippe | Britheg frown |
| Pryf – Diptera | Asilus crabroniformis | Pryf llofrudd |
| Pryf – gwyfyn | Asteroscopus sphinx | Cwcwll bwaog |
| Pryf – gwyfyn | Atethmia centrago | Melyn yr onnen |
| Pryf – glöyn byw | Boloria euphrosyne | Britheg berlog |
| Pryf – glöyn byw | Boloria selene | Britheg berlog fach |
| Pryf – hymenopteran | Bombus (Megabombus) ruderatus | Gwenynen bwm yr ardd |
| Pryf – hymenopteran | Bombus (Thoracobombus) humilis | Cardwenynen lwydfrown |
| Pryf – hymenopteran | Bombus (Thoracobombus) muscorum | Cardwenynen y mwsogl |
| Pryf – hymenopteran | Bombus (Thoracobombus) ruderarius | Cardwenynen goesgoch |
| Pryf – hymenopteran | Bombus (Thoracobombus) sylvarum | Cardwenynen feinlais |
| Pryf – gwyfyn | Brachylomia viminalis | Gwargwlwm bach |
| Pryf – chwilen (Coleoptera) | Carabus (Morphocarabus) monilis | Chwilen ddaear |
| Pryf – gwyfyn | Caradrina morpheus | Gwladwr brith |
| Pryf – gwyfyn | Celaena haworthii | Gwyfyn plu’r gweunydd |
| Pryf – gwyfyn | Celaena leucostigma | Clustwyfyn cilgantog |
| Pryf – gwyfyn | Ceramica pisi | Gwyfyn y banadl |

| | | |
|---|---|---|
| Pryf – gwyfyn | Chiasmia clathrata | Seffyr delltog |
| Pryf – gwyfyn | Cirrhia icteritia | Melyn penfelyn |
| Pryf – gwas y neidr (Odonata) | Coenagrion mercuriale | Mursen Penfro |
| Pryf – glöyn byw | Coenonympha pamphilus | Gweirlöyn bach y waun |
| Pryf – glöyn byw | Cupido minimus | Glesyn bach |
| Pryf – gwyfyn | Dasypolia templi | Cwcwll melynaidd |
| Pryf – gwyfyn | Diarsia rubi | Smotyn sgwâr bach |
| Pryf – gwyfyn | Diloba caeruleocephala | Crwbach ffigwr wyth |
| Pryf – gwyfyn | Ecliptopera silaceata | Ffenics bach |
| Pryf – gwyfyn | Ennomos erosaria | Carpiog Medi |
| Pryf – gwyfyn | Ennomos fuscantaria | Carpiog tywyll |
| Pryf – gwyfyn | Ennomos quercinaria | Carpiog Awst |
| Pryf – gwyfyn | Epirrhoe galiata | Brychan y friwydd |
| Pryf – glöyn byw | Erynnis tages | Y gwibiwr llwyd |
| Pryf – hymenopteran | Eucera (Eucera) longicornis | Gwenynen gorniog |
| Pryf – gwyfyn | Eugnorisma glareosa | Gwladwr yr hydref |
| Pryf – gwyfyn | Eulithis mellinata | Brychan cyrens |
| Pryf – glöyn byw | Euphydryas aurinia | Britheg y gors |
| Pryf – gwyfyn | Euxoa nigricans | Dart y gerddi |
| Pryf – gwyfyn | Euxoa tritici | Dart gwynresog |
| Pryf – gwyfyn | Graphiphora augur | Dart deunod |
| Pryf – chwilen (Coleoptera) | Harpalus (Cryptophonus) melancholicus | Chwilen ddaear Harpalus (Cryptophonus) melancholicus |
| Pryf – gwyfyn | Hemistola chrysoprasaria | Emrallt barf yr hen ŵr |
| Pryf – gwyfyn | Hepialus humuli | Chwimwyfyn rhithiol |
| Pryf – glöyn byw | Hipparchia semele | Gweirlöyn llwyd |
| Pryf – gwyfyn | Hoplodrina blanda | Llwyd llyfn |
| Pryf – gwyfyn | Hydraecia micacea | Gwladwr gwridog |
| Pryf – glöyn byw | Lasiommata megera | Gweirlöyn y cloddiau |
| Pryf – gwyfyn | Leucania comma | Gwensgod gwar rhesog |
| Pryf – Diptera | Lipsothrix nervosa | Pryf teiliwr gïeuog |
| Pryf – gwyfyn | Litoligia literosa | Corrach gwridog |
| Pryf – gwyfyn | Lycia hirtaria | Rhisglyn brith |
| Pryf – gwyfyn | Macaria wauaria | Seffyr y ffyrch |
| Pryf – gwyfyn | Malacosoma neustria | Gwaswyfyn |
| Pryf – gwyfyn | Melanchra persicariae | Gwyfyn dotiog |

| | | |
|---|---|---|
| Pryf – gwyfyn | Melanthia procellata | Brychan hardd y calch |
| Pryf – chwilen (Coleoptera) | Meloe proscarabaeus | Chwilen olew |
| Pryf – gwyfyn | Mniotype adusta | Pali tywyll |
| Pryf – chwilen (Coleoptera) | Ochthebius (Hymenodes) poweri | Chwilen ddŵr |
| Pryf – gwyfyn | Orthonama vittata | Brychan lletraws |
| Pryf – gwyfyn | Orthosia gracilis | Crynwr llychlyd |
| Pryf – gwyfyn | Pelurga comitata | Brychan y wermod |
| Pryf – gwyfyn | Perizoma albulata | Gwregys y gwair |
| Pryf – glöyn byw | Plebejus argus | Glesyn serennog |
| Pryf – glöyn byw | Plebejus argus subsp. argus | Glesyn serennog |
| Pryf – glöyn byw | Pyrgus malvae | Gwibiwr brith |
| Pryf – gwyfyn | Rheumaptera hastata | Brychan du a gwyn |
| Pryf – gwyfyn | Rhizedra lutosa | Gwelltwyfyn mawr |
| Pryf – glöyn byw | Satyrium w-album | Brithribin wen |
| Pryf – gwyfyn | Scopula marginepunctata | Ton arfor |
| Pryf – gwyfyn | Scotopteryx bipunctaria | Brychan y calch |
| Pryf – gwyfyn | Scotopteryx bipunctaria subsp. cretata | Brychan y calch |
| Pryf – gwyfyn | Scotopteryx chenopodiata | Rhesen lydan dywyll |
| Pryf – gwyfyn | Spilosoma lubricipeda | Ermin gwyn |
| Pryf – gwyfyn | Spilosoma lutea | Ermin llwydfelyn |
| Pryf – gwyfyn | Stilbia anomala | Llwyd gloyw |
| Pryf – glöyn byw | Thecla betulae | Brithribin brown |
| Pryf – gwyfyn | Tholera cespitis | Rhwyll y crawcwellt |
| Pryf – gwyfyn | Tholera decimalis | Rhwyll bluog |
| Pryf – gwyfyn | Timandra comae | Gwyfyn gwythïen goch |
| Pryf – gwyfyn | Trichiura crataegi | Wylun gwelw |
| Pryf – gwyfyn | Tyria jacobaeae | Teigr y benfelen |
| Pryf – gwyfyn | Watsonalla binaria | Bachadain y derw |
| Pryf – gwyfyn | Xanthorhoe ferrugata | Brychan deusmotiog tywyll |
| Pryf – gwyfyn | Xestia agathina | Clai'r rhos |
| Pryf – gwyfyn | Xestia castanea | Clai'r waun |
| Pryf – gwyfyn | Xylena exsoleta | Cleddwyfyn cyffredin |
| Cennau | Anaptychia ciliaris subsp. ciliaris | Anaptychia ciliaris isryw. ciliaris |
| Cennau | Arthonia atlantica | Arthonia atlantica |
| Cennau | Bacidia incompta | Cen |

| | | |
|---|---|---|
| Cennau | Cladonia peziziformis | Cen |
| Cennau | Collema fragile | Collema fragile |
| Cennau | Cryptolechia carneolutea | Cryptolechia carneolutea |
| Cennau | Gyalecta flotovii | Gyalecta flotovii |
| Cennau | Gyalolechia fulgens | Gyalolechia fulgens |
| Cennau | Heterodermia leucomelos | Cen rhuban blewog |
| Cennau | Lecania chlorotiza | Lecania chlorotiza |
| Cennau | Lecanora sublivescens | Lecanora sublivescens |
| Cennau | Megalospora tuberculosa | Megalospora tuberculosa |
| Cennau | Physcia tribacioides | Ffysgia llwyd y de |
| Cennau | Pyrenula nitida | Pyrenula nitida |
| Cennau | Ramonia chrysophaea | Ramonia chrysophaea |
| Cennau | Teloschistes flavicans | Cen eurwallt |
| Cennau | Toninia sedifolia | Toninia sedifolia |
| Cennau | Usnea articulata | Usnea articulata |
| Cennau | Usnea florida | Usnea florida |
| Cennau | Varicellaria hemisphaerica | Varicellaria hemisphaerica |
| Cennau | Wadeana dendrographa | Wadeana dendrographa |
| Cennau | Zwackhia prosodea | Zwackhia prosodea |
| Cennau | Sticta sylvatica | Sticta sylvatica |
| Cennau | Sticta fuliginosa s. lat. | Sticta fuliginosa s. lat. |
| Cennau | Sticta limbata | Sticta limbata |
| Cennau | Sticta ciliata | Sticta ciliata |
| Cennau | Sticta canariensis | Sticta canariensis |
| Cennau | Lobaria virens | Lobaria virens |
| Cennau | Lobaria scrobiculata | Lobaria scrobiculata |
| Cennau | Lobaria amplissima | Lobaria amplissima |
| Cennau | Lobaria pulmonaria | Llysiau’r ysgyfaint |
| Llysiau’r Afu | Cephaloziella calyculata | Llysiau’r afu edafeddog cyfan |
| Llysiau’r Afu | Fossombronia fimbriata | Fossombronia fimbriata |
| Llysiau’r Afu | Fossombronia foveolata | Crychfwsogl tyllog |
| Llysiau’r Afu | Pallavicinia lyellii | Llysiau’r afu gwylaeth y gors |
| Llysiau’r Afu | Petalophyllum ralfsii | Llysiau’r afu petalaidd |
| Mamal | Arvicola amphibius | Llygoden bengron y dŵr |
| Mamal (morol) | Balaenoptera acutorostrata | Morfil pigfain |
| Mamal | Barbastella | Rhywogaeth ystlum du |

| | | |
|---|---|---|
| Mamal | Barbastella barbastellus | Ystlum du |
| Mamal | Chiroptera | Ystlumod |
| Mamal (morol) | Delphinus delphis | Dolffin cyffredin |
| Mamal | Erinaceus europaeus | Draenog |
| Mamal (morol) | Globicephala melas | Morfil pengrwn |
| Mamal (morol) | Grampus griseus | Dolffin Risso |
| Mamal (morol) | Lagenorhynchus acutus | Dolffin ystlyswyn |
| Mamal (morol) | Lagenorhynchus albirostris | Dolffin pigwyn |
| Mamal | Lepus europaeus | Ysgyfarnog |
| Mamal | Lutra lutra | Dyfrgi |
| Mamal (morol) | Megaptera novaeangliae | Morfil cefngrwm |
| Mamal | Micromys minutus | Llygoden yr ŷd |
| Mamal | Muscardinus avellanarius | Pathew |
| Mamal | Mustela putorius | Ffwlbart |
| Mamal | Myotis bechsteinii | Ystlum Bechstein |
| Mamal | Nyctalus noctula | Ystlum mawr |
| Mamal (morol) | Orcinus orca | Lleiddiad, orca |
| Mamal (morol) | Phocoena phocoena | Llamhidydd |
| Mamal | Pipistrellus pipistrellus | Ystlum lleiaf |
| Mamal | Pipistrellus pygmaeus | Ystlum lleiaf meinlais |
| Mamal | Plecotus auritus | Ystlum hirglust |
| Mamal | Rhinolophus | Rhywogaeth ystlum pedol |
| Mamal | Rhinolophus ferrumequinum | Ystlum pedol mwyaf |
| Mamal | Rhinolophus hipposideros | Ystlum pedol lleiaf |
| Mamal | Sciurus vulgaris | Gwiwer goch |
| Mamal (morol) | Tursiops truncatus | Dolffin trwyn potel |
| Mamal (morol) | Ziphius cavirostris | Morfil gylfinog Cuvier |
| Molwsg (morol) | Arctica islandica | Cocosen fawr |
| Molwsg (morol) | Atrina fragilis | Cragen adain |

| | | |
|---|---|---|
| Molwsg | Margaritifera (Margaritifera) margaritifera | Misglen berlog yr afon |
| Molwsg | Omphiscola glabra | Malwen y llaid |
| Molwsg (morol) | Ostrea edulis | Wystrysen |
| Mwsoglau | Cryphaea lamyana | Mwsogl afon amlffrwythog |
| Mwsoglau | Didymodon tomaculosus | Mwsogl barfog cnapiau hirion |
| Mwsoglau | Ditrichum subulatum | Crafancfwsogl y mynawyd |
| Mwsoglau | Funaria pulchella | Rheffynfwsogl hardd |
| Mwsoglau | Leptodon smithii | Mwsogl (pluenfwsogl Smith) |
| Mwsoglau | Pseudocalliergon lycopodioides | Pseudocalliergon lycopodioides |
| Mwsoglau | Rhytidiadelphus subpinnatus | Mwsogl blewog prin |
| Mwsoglau | Tortula wilsonii | Mwsogl troellog Wilson |
| Mwsoglau | Weissia squarrosa | Mwsogl minfoel dail atblyg |
| Ymlusgiad | Anguis fragilis | Neidr ddefaid |
| Ymlusgiad (morol) | Caretta caretta | Crwban môr pendew |
| Ymlusgiad (morol) | Dermochelys coriacea | Crwban môr cefn-lledr |
| Ymlusgiad | Natrix natrix | Neidr y gwair / neidr y glaswellt |
| Ymlusgiad | Vipera berus | Gwiber |
| Ymlusgiad | Zootoca vivipara | Madfall |
| Corynnod | Monocephalus castaneipes | Corryn lwcus |
| Corynnod | Saaristoa firma | Corryn lwcus |